Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

25/7/2019

Annwyl Riant / Warcheidwad

Mae'r Gyfadran Dyniaethau yn trefnu ymweliad ag Efrog Newydd a Washington i ddisgyblion a fydd ym mlynyddoedd 10 i 13 ym mis Medi 2020. Byddwn yn gadael **ar nos Wener, Gorffennaf y 9fed 2021, ac yn dychwelyd ar ddydd Iau 15fed o Orffennaf 2021.** Mae'r daith yn berthnasol i gwricwlwm TGAU a Safon U/UG y pynciau canlynol: Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Twristiaeth a Gwleidyddiaeth.

Mae'r pris wedi ei gadw mor rhesymol ag sy'n bosibl, sef **£1,289**, sy'n cynnwys

- taith awyren o Heathrow ac yn ôl,
- bws o'r ysgol i'r maes awyr ac yn ôl,
- bws o'r maes awyr i'r gwesty ac yn ôl yn America,
- bws o Efrog Newydd i Washington gyda 3 awr o daith o gwmpas Philadelphia,
- llety a brecwast am dair noson yn Efrog Newydd,
- llety a brecwast am ddwy noson yn Washington,
- prydau bwyd am dri noson,
- taith o gwmpas Pencadlys y Cenhedloedd Unedig,
- tocyn i weld sioe ar 'Broadway',
- Taith gerdded o amgylch Efrog Newydd a Washington,
- mynediad i'r 'One World Trade Centre',
- mynediad i Top of the Rock neu'r Empire State Building;
- taith ar long i weld Cerflun Liberty ac Ynys Elis,
- mynediad i gofeb 9/11,
- mynediad i amrywiaeth o amgueddfeydd, gan gynnwys y Tŷ Gwyn, y Goruchaf Lys, Cofeb Lincoln, Amgueddfa'r Holocost ac Amgueddfa'r Archifau Cenedlaethol.
- Hwdi ar gyfer y daith

Bydd mwy o fanylion ynglŷn ag amseroedd gadael a dychwelyd ar gael yn agosach at yr amser. A fyddech mor garedig â nodi ar y bonyn isod os ydych yn fodlon i'ch mab/merch/gward fynychu'r daith, gan ddychwelyd y ffurflen cyn gynted â phosib, gyda blaendal o **£89** i brif swyddfa'r ysgol erbyn **Gorffennaf 19ain, 2019**. (Mae sieciau'n daladwy i Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe). Bydd y blaendal yn talu'r costau hedfan ac yn ein galluogi archebu'r hediadau gorau i'r disgyblion.

**Taliadau penodol 2019/2020: £150 ar y dyddiadau canlynol – 6/9/19, 5/11/19, 30/1/20, 3/3/20, 5/5/20, 2/7/20*, 1/10/20, a'r 3/12/20.**

***Bydd cost ychwanegol o £80 i bob disgybl sy'n 16 mlwydd oed cyn 15/7/2021. Mae hyn ar gyfer treth teithwyr awyr sydd wedi bod yn orfodol ers mis Mawrth 2016. Fe fydd angen talu'r gost yma gyda thaliad mis Gorffennaf 2020.**

Yr eiddoch yn gywir,

Mrs R Davis (Pennaeth yr Adran Ddaearyddiaeth)

✂ -----------------------------------------------------------------------

Rwyf yn rhoi fy nghaniatâd i fy mab/merch/gward________________________ i fynd ar yr ymweliad i America rhwng Gorffennaf y 9fed a'r 15fed, 2021. Amgaeaf taliad o £89 fel blaendal ar gyfer y daith.

Llofnod Rhiant/Gwarcheidwad: ________________________ Dyddiad: __________________

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

**DIDDYMIAD**

| Cyfnod cyn gadael pan dderbynnir hysbysiad ysgrifenedig | Swm o'r gost diddymu fel % o gost y daith |
|---|---|
| Mwy na 70 diwrnod | Blaendal a taliad cyntaf, cyfanswm £200 |
| 30 - 69 diwrnod | 75 % |
| 0 - 29 diwrnod | 100 % |
| | |

**CANCELLATION**

| Period before departure within which written notification is received | Amount of cancellation charge shown as % of tour price |
|---|---|
| More than 70 days | First deposit and second payment, total £200 |
| 30 - 69 days | 75 % |
| 0 - 29 days | 100 % |
| | |



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies